YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2026 – Y Tonnau

## Bant â ni i gynllunio!




Some ladybirds aren't coch, some are green! Dylan.

Beth sy'n digwydd i lindys? Caio

Byw mewn gwair. I've seen a caterpillar. Reuben

Do they all sting you? Lani

Mae pry cop yn cael wyth coes. Fi eisiau ffeindio pili pala. Elgan

There are two types of beatrles. On the beach there was an orange beetle with 6 legs but he didn't bite us. Elis

Does the worm have coesau? Aeron

Bugs- they sting you; they sting my neck a long time ago! Harri H.

Ants- Mae cario leaves i bwyta. Arlo

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2026 – Y Tonnau

Syniad mawr y tymor hwn:



## Byd y Bwystfilod Bach

Dyma rhai o'n syniadau;

Pwrpas yr uned ddysgu hon yw i roi cyfle i'r dysgwyr i fod yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas a dechrau dysgu am gynaladwyaeth y blaned. Bydd cyfle i'r dysgwyr fod yn ymholgar ac i ddatblygu corff o wybodaeth am fwystfilod bach trwy brofiadau uniongyrchol. Byddent yn ymchwilio eu cynefinoedd a dysgu beth sydd angen ar fwystfilod bach i oroesi. Bydd deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd ar fwystfilod bach a'u cynefinoedd yn cyfrannu at ddatblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus y dyfodol. Ar ddiwedd yr uned ddysgu, bydd cyfle i'r dysgwyr i gysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth greu 'Byd y Bwystfilod Bach'. Bydd angen iddynt gyfathrebu'n effeithiol wrth gyflwyno gwybodaeth am eu hoff fwystfil ac egluro sut wnaethon nhw eu modelau.

### Mathemateg a Rhifedd

- Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau.
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen ysgrifennu a threfnu rhifau
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data a'i gyflwyno.
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**

www.yggbrynymor.co.uk

### Y Dyniaethau

- Bod yn chwilfrydig am yr ardal leol.
- Gofalu am bethau byw a'r amgylchfyd.

### Ymweliadau a Phrofiadau!

- **Plantastia yn ymweld â'r ysgol**
- **Ymweld a pharc Singleton**

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Mynd ar helfa bwystfilod.
- Arsylwi ar fwystfilod bach yn eu cynefinoedd
- Adnabod bod anifeiliaid yn bethau byw sy'n tyfu
- Adnabod ac enwi rhannau corff bwystfilod bach a'u nodweddion.
- Siarad am ffurf o ofalu am fwystfilod bach.
- Dosbarthu bwystfilod gan greu meini prawf ein hun
- Arsylwi ar gylch bywyd pili pala.
- Defnyddio dyfeisiau digidol i recordio'u creadigaethau
- Archwilio amrywiaeth o galedwedd cyfrifiadurol
- Rhoi cyfarwyddiadau i degan e.e. 'Code-a-pillar' neu Bee-bot.

### Iechyd a Lles

- Dangos chwilfrydedd
- Mynegi a gwneud penderfyniadau
- Dangos gofal a pharch at eraill
- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw- llygad
- Paratoi, ymarfer a chymryd rhan mewn mabolgampau

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Creu cornel chwarae rôl 'milfeddyg' neu 'ardal anifeiliaid Plantasia' (plant i bleidleisio)
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Gweithgareddau cyn darllen / ysgrifennu, e.e.. gemau gwrando
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e., ffeil-o-ffaith.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Archwilio ac arbrofi gyda chlai gan ddefnyddio gwahanol offer a thechnegau.
- Trin deunyddiau hyblyg i amrywiaeth o siapiau a ffurf gyda dwylo neu offer.
- Cynllunio a chreu bwystfilod bach allan o glai.
- Creu arddangosfa bwystfilod bach a gwahodd rhieni i'w weld
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd.